# Cofnodion cyfarfod â thema Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2025

**Yn bresennol:**

**Aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:**

- Dr Rhian Hayward, MBE – Cadeirydd
- Dr John Williams
- Dave Holland
- Georgia Taylor
- Jessica Williams
- Dr Ifan Lloyd
- John Richards

**Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

- Anjali Juneja – Cyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a'r DU (UKIA)
- Sioned Fidler – Pennaeth Cyfathrebu, y Gymraeg a Chymorth Busnes
- Lucy Edwards – Uwch-reolwr Busnes
- Christie O'Keefe – Rheolwr Busnes
- Owen Lewis – Pennaeth Polisi
- Jonathan Davies – Pennaeth Strategaeth
- Sarah Aza – Pennaeth Cyflenwi

**Cyflwynwyr:**

- David Holmes – Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth, yr ASB
- Jonathan Tench – Cyfarwyddwr Economi Llesiant a Pholisi Bwyd, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Tim McHugh – Dyfodol Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru

# 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau gan Helen Taylor. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod mis Ebrill 2025.

# 2. Datgan buddiannau

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

# 3. Dyfodol Bwyd

3.1 **David Holmes, Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth** – Cyflwynodd David yr adroddiad "Ein Bwyd 2024", y pedwerydd cyhoeddiad blynyddol ar y cyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS). Darparodd yr adroddiad adolygiad seiliedig ar dystiolaeth o safonau bwyd ledled y DU, gan ganolbwyntio ar bryderon defnyddwyr, cydymffurfiaeth busnesau bwyd, patrymau mewnforio, a diogelwch/dilysrwydd bwyd. Tynnodd David sylw at ganfyddiadau allweddol, tueddiadau nodedig a gwyriadau penodol i Gymru o adroddiad 2024, gan ddangos mai'r prif bryderon i ddefnyddwyr yng Nghymru yw: prisiau bwyd, deunydd pecynnu, ansawdd, gwastraff, a chynnwys siwgr. Tynnodd David sylw at y canlynol:

**Pryderon defnyddwyr**

- Dangosodd ymatebwyr Cymru fwy o bryder ynghylch deunydd pecynnu bwyd na'r ymatebwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.
- Effeithiodd diffyg diogeledd bwyd ar 25% o gartrefi, i lawr o 30% y flwyddyn flaenorol, ond yn dal yn uwch nag yng ngwledydd eraill y DU.

**Sgoriau Hylendid Bwyd**

- Roedd 96.9% o fusnesau bwyd Cymru wedi cael sgôr o 3 neu well.
- Enillodd 73.2% sgôr o 5, sydd ychydig yn is na Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Cydymffurfiaeth Bwyd Anifeiliaid**

- Amrywiodd cyfraddau cydymffurfio yng Nghymru: gwnaethant gyrraedd uchafbwynt o 89% yn 2022, gan ostwng yn 2023, cyn adfer i 88.7% yn 2024.

**Hylendid Llaeth**

- Roedd gan Gymru gyfradd gydymffurfio o 99.3% – ymhlith yr uchaf yn y DU.

**Samplu Bwyd**

- Cynyddodd gwaith samplu bwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru 13%, y cynnydd mwyaf ymhlith gwledydd y DU.
- Roedd hyn yn cyferbynnu â gostyngiad yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Adnoddau Awdurdodau Lleol**

- Roedd adnoddau awdurdodau lleol yng Nghymru yn sefydlog neu'n gwella o flwyddyn i flwyddyn.

Codwyd cwestiynau gan y pwyllgor ynghylch y gyfran is o fusnesau â sgôr o 5 er gwaethaf y ffaith bod y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn orfodol yng Nghymru. Bu trafodaeth hefyd ynghylch yr anghydraddoldebau samplu rhwng gwledydd, a gwnaeth y gyfradd samplu uwch yng Ngogledd Iwerddon ysgogi cwestiynau am yr achosion sylfaenol ac effeithiau hyn. Bydd WFAC yn archwilio bwyd anifeiliaid yn y cyfarfod â thema nesaf i archwilio'r maes hwn ymhellach.

3.2 **Adroddiad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol –** Cyflwynodd **Jonathan Tench, Cyfarwyddwr Economi Llesiant a Pholisi Bwyd yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**, Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, sy'n herio arweinwyr a gwleidyddion ledled Cymru ar yr hyn sydd angen digwydd nesaf i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a diogelu ein dyfodol. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg strategol o heriau a chyfleoedd y system fwyd yng Nghymru. Pwysleisiodd y cyflwyniad, a oedd wedi'i fframio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yr angen

brys am strategaeth fwyd gydlynol, hirdymor i fynd i'r afael â diffyg diogeledd bwyd cynyddol, maeth gwael ymhlith plant, a phwysau amgylcheddol. Roedd yr argymhellion allweddol yn cynnwys ehangu prydau ysgol am ddim i bawb hyd at 16 oed, hyrwyddo cynhyrchu bwyd lleol trwy fentrau fel Llysiau Cymru mewn Ysgolion, a defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi deietau iach a chynaliadwy. Tynnodd Jonathan sylw at bwysigrwydd cydweithio trawslywodraethol, grymuso awdurdodau lleol, a buddsoddi mewn seilwaith i adeiladu system fwyd wydn. Tanlinellodd y cyflwyniad rôl ganolog bwyd wrth gyflawni nodau llesiant Cymru, a galwodd am aliniad polisi cryfach ar draws sectorau bwyd.

Cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad a chydnabu fod llawer o waith i'r llywodraeth ei wneud, a fydd yn heriol o ystyried natur dra newidiol y system fwyd fyd-eang. Cafwyd trafodaeth ynghylch cynaliadwyedd bwyd, cadwyni cyflenwi byrrach a deietau iachach i blant ac oedolion gan barhau i gynnig dewis i ddefnyddwyr. Roedd y pwyllgor yn awyddus i archwilio sut y gall yr ASB gynorthwyo i gefnogi dull system-gyfan.

3.3 **Strategaeth Bwyd Cymunedol Llywodraeth Cymru – Tim McHugh, Dyfodol Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru** – Cyflwynodd Tim y Strategaeth Bwyd Cymunedol (CFS) a oedd newydd ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, gan amlinellu ei gweledigaeth i gryfhau systemau bwyd lleol a chynyddu faint o fwyd o ffynonellau lleol sydd ar gael ac yn cael ei fwyta er mwyn gwella lles ledled Cymru. Dyma un o'r ymrwymiadau allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu sydd â'r nod o gryfhau systemau bwyd lleol ledled Cymru. Mae'r strategaeth yn nodi newid sylweddol ym mholisi bwyd Cymru – gan symud y tu hwnt i dwf economaidd i gofleidio rôl bwyd mewn lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Esboniodd Tim fod y strategaeth wedi'i datblygu trwy ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid a chydweithio trawslywodraethol, gan ganolbwyntio ar alluogi gweithredu dan arweiniad y gymuned yn hytrach na gorfodi model o'r brig i lawr. Mae wedi'i strwythuro o amgylch chwe amcan, gan gynnwys cefnogaeth i bartneriaethau bwyd lleol, mynd i'r afael â thlodi bwyd, hyrwyddo deietau iach, ac ehangu garddwriaeth. Mae mecanweithiau cyflawni allweddol yn cynnwys cyllid hirdymor ar gyfer Partneriaethau Bwyd Lleol ym mhob un o'r 22 ardal awdurdod lleol, cefnogaeth

i arddwriaeth ar raddfa fach, a sefydlu Grŵp Cynghori Gweinidogol i arwain y gweithrediad a datblygu metrigau perfformiad, yn ogystal â phartneriaethau â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i yrru'r ddarpariaeth. Tynnodd Tim sylw at aliniad y strategaeth â blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys prydau ysgol am ddim i bawb, mentrau pwysau iach, iechyd meddwl a lles, a'r economi sylfaenol. Pwysleisiodd botensial caffael cyhoeddus i ysgogi'r galw am gynnyrch Cymru a phwysigrwydd integreiddio polisi bwyd â chynllunio, addysg ac iechyd.

Cafwyd cwestiynau gan y pwyllgor am brosiectau a chynlluniau'r Strategaeth Bwyd Cymunedol a sut y gellir lledaenu'r rhain yn gyfartal ledled Cymru yn hytrach na'u canolbwyntio mewn rhai ardaloedd. Awgrymwyd hefyd fod angen i'r cynlluniau hyn gynnwys cynhyrchwyr cig lleol i gynnwys y maes hwn o gynhyrchu bwyd ac nid dim ond ffrwythau a llysiau, a chafwyd cwestiwn ynghylch a oes cyfle i'r cynllun integreiddio â'r cynllun ffermio cynaliadwy i gwmpasu'r sector cynhyrchu bwyd cyfan. Roedd gan WFAC ddiddordeb mewn gwybod faint o'r gwaith hwn fyddai'n cael ei gyflawni cyn etholiad y Senedd y flwyddyn nesaf. Byddai'r pwyllgor yn croesawu ailedrych ar y gwaith hwn yn y dyfodol i weld sut mae pethau wedi datblygu.

## 4. Diweddariad gan y Cadeirydd

4.1 Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar ar gyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin yn Birmingham a chroesawodd ddau aelod newydd, John Richards a'r Dr Ifan Lloyd, i'r pwyllgor. Hysbysodd y Cadeirydd hefyd y bydd Lindsey Horth yn ymuno â'r pwyllgor o 1 Rhagfyr 2025.

## 5. Adroddiad y Cyfarwyddwr (Papur 25/07/02)

5.1 Rhoddodd Cyfarwyddwr UKIA ddiweddariad llafar ar yr adroddiad a oedd yn cynnwys digwyddiadau ymgysylltu diweddar fel cynhadledd CLILC, cynhadledd CTSI, lansio maniffesto NFU Cymru a gwobrau Bwyd a Diod Cymru. Roedd y diweddariad hefyd yn cynnwys adroddiad cynnydd ar yr adolygiad o'r ASB yng Nghymru.

## 6. Unrhyw faterion eraill

6.1 Nododd yr aelodau y byddai'r cyfarfod â thema nesaf ar 4 Tachwedd 2025.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.